# Arolwg newyddion a ffurfio barn Etholiad Cyffredinol 2024 y DU

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 10 Medi 2024

# Cynnwys

## Adran

**Heb ganfod tabl cynnwys.**

# Trosolwg

Sefydlwyd arolwg Etholiad Cyffredinol 2024 y DU yn ystod cyfnod yr etholiad i fonitro diddordeb oedolion y DU mewn newyddion a'u hymgysylltiad â'r newyddion, rôl gwahanol ffynonellau cyfryngau wrth iddynt ffurfio eu barn, a'u profiadau o gamwybodaeth bosibl, yn ystod cyfnod Etholiad Cyffredinol 2024 y DU.

Bwriad yr arolwg oedd gwella dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â newyddion a chamwybodaeth.

Yn y ddogfen fer hon rydym yn tynnu sylw at rai o ganfyddiadau allweddol yr arolygon. Mae adroddiad rhyngweithiol a thablau data llawn hefyd ar gael i edrych yn fanylach ar y data.

### Beth rydym wedi'i ganfod – yn gryno

- **Ar y cyfan, dywedodd ymatebwyr eu bod fwy neu lai â diddordeb mewn newyddion a materion cyfoes yn ystod yr etholiad fel "yn gyffredinol".** Yn y grŵp oed 18-24 gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn diddordeb yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol o'i gymharu â'r arfer. Ar y llaw arall, roedd oedolion hŷn 50+ oed yn fwy tebygol nag arfer o fod â diffyg diddordeb yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol.

- **Roedd llai nag un o bob pump (17%) yn cytuno bod "gan bobl fel fi lais mewn cymdeithas".** Roedd tua hanner (49%) yr ymatebwyr yn teimlo "does gan bobl fel fi *ddim* llais mewn cymdeithas". Roedd y canfyddiad o *beidio* â chael llais yn cynyddu gydag oedran, ac roedd pobl o aelwydydd C2DE[1] hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o deimlo fel hyn.

- **Roedd bron i hanner (46%) yr ymatebwyr yn cytuno "ei bod hi'n bwysig ymgysylltu â llawer o wahanol ffynonellau newyddion"**, a dywedodd llai na chwarter (22%) "mae'n well cadw at un ffynhonnell newyddion rydych chi'n ymddiried ynddi".

- **Roedd safbwyntiau'n amrywio ar werth clywed "barn y bobl o'm cwmpas" yn hytrach na darparwyr newyddion a ffynonellau swyddogol i helpu pobl i benderfynu.** Roedd oedolion hŷn 65+ oed yn fwy tebygol o droi at ddarparwyr newyddion a ffynonellau swyddogol, ac roedd oedolion ifanc 18-24 oed yn fwy tebygol o ffafrio defnyddio barn y bobl o'u cwmpas; er bod y mwyafrif ar gyfer pob grŵp oedran yn niwtral gan nad oeddent yn ffafrio un opsiwn yn fwy na'r llall.

- **Dywedodd y rhan fwyaf (55%) o bobl mai "anaml" byddant yn newid eu meddwl ar bynciau sy'n ymwneud â'r Etholiad Cyffredinol** – yn fwy tebygol ymysg y rheini sy'n 65+ oed. Dywedodd lleiafrif (11%) eu bod "yn aml" yn newid eu meddwl – yn fwy tebygol ymysg pobl 18-24 oed.

- **Roedd mwyafrif (60%) yn dweud eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth am yr Etholiad Cyffredinol o leiaf unwaith yn yr wythnos flaenorol roeddent yn teimlo y gallai fod wedi bod yn ffug neu'n gamarweiniol.** Roedd mwy o ansicrwydd am ffugiadau dwfn gyda bron i hanner

[1] Mae statws economaidd-gymdeithasol person yn seiliedig ar y math o waith maen nhw'n ei wneud, neu'r hyn roedden nhw'n arfer ei wneud os ydynt wedi ymddeol. AB: galwedigaethau rheoli uwch a chanolradd, gweinyddol, proffesiynol; C1: galwedigaethau goruchwylio, clercio a rheoli is; gweinyddol, proffesiynol; C2: galwedigaethau gwaith llaw crefftus; DE: galwedigaethau gwaith llaw lled-grefftus a di-grefft, di-waith a galwedigaethau ar y graddau isaf.

(46%) yn dweud nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi gweld un yn ystod yr wythnos flaenorol, er bod dros chwarter (27%) yn dweud eu bod wedi gweld un o leiaf unwaith.

- **Dywedodd mwyafrif (57%) yr ymatebwyr eu bod naill ai'n eithaf pryderus neu'n bryderus iawn am effaith ffugiadau dwfn yn ystod ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol.**

# Methodoleg

Roedd yr arolwg yn cynnwys 24 o gwestiynau dros dair adran:

1. Ffynonellau newyddion a materion cyfoes: Y ffynonellau roedd ymatebwyr yn eu defnyddio i ddod o hyd i newyddion a materion cyfoes y tu allan i gyfnod yr Etholiad Cyffredinol ac yn ystod y cyfnod hwnnw.
2. Agweddau at newyddion a materion cyfoes: Agweddau'r ymatebwyr at newyddion a materion cyfoes yn ymwneud â'r Etholiad Cyffredinol, sut maen nhw'n ffurfio eu barn a rôl y gwahanol ffynonellau cyfryngau yn hyn o beth.
3. Camwybodaeth a ffugiadau dwfn: Profiadau ymatebwyr o gamwybodaeth ffugiadau dwfn ymddangosiadol yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol.

Cafodd yr arolwg ei gyflwyno bedair gwaith yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol i samplau o oedolion y DU a oedd yn cynrychioli'r wlad (2,000 o ymatebwyr fesul ton), gan ddefnyddio omnibws gwleidyddol YouGov.

Cafodd y gwaith maes ei wneud ar y dyddiadau canlynol: 19-20 Mehefin (T1); 26-27 Mehefin (T2); 3-4 Gorffennaf (T3); 10-11 Gorffennaf (T4). Cynhaliwyd Etholiad Cyffredinol y DU ar 4 Gorffennaf 2024, sy'n golygu bod yr ymchwil yn darparu tair ton o waith maes yn y cyfnod cyn yr etholiad, ac un don yn ystod yr wythnos wedyn.

Bach iawn oedd y gwahaniaethau a welwyd ar draws pob adran rhwng y pedair ton. Felly, at ddibenion y crynodeb hwn, rydym yn defnyddio'r ffigurau treigl drwy gyfuno pedair ton y traciwr. Mae'r ffigurau yn ôl ton ar gael yn y tablau data a'r adroddiad rhyngweithiol.

# Prif ganfyddiadau

## Ffynonellau newyddion a materion cyfoes

Sylwch mai'r Arolwg Cael Gafael ar Newyddion yw'r brif ffynhonnell ar gyfer mesurau cynhwysfawr am gael gafael ar newyddion yn ôl ffynhonnell unigol. Dylid ystyried bod ein metrigau arolwg Etholiad Cyffredinol ar ffynonellau cael gafael ar newyddion yn ategu'r rhain yn hytrach na'u disodli.

**Teledu oedd y ffordd fwyaf poblogaidd o gael gafael ar newyddion a gwybodaeth am Etholiad Cyffredinol y DU** (49% o'r ymatebwyr). Cafodd hyn ei ddilyn gan wefannau neu apiau rhwydweithiau cymdeithasol (26%), apiau newyddion ar ddyfeisiau symudol/tabled (24%), radio (24%), gwefannau papurau newydd (19%), gwefannau newyddion nad ydynt yn gysylltiedig â phapurau newydd (17%), ac ar lafar (16%).[2] Roedd bron i naw oedolyn o bob deg (87%) yn defnyddio o leiaf un ffynhonnell i ddilyn newyddion a gwybodaeth am yr Etholiad Cyffredinol.

**Yn unol â thueddiadau ehangach o ran cael gafael ar newyddion, roedd oedolion iau 18-24 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o droi at gyfryngau cymdeithasol i gael newyddion a gwybodaeth am yr Etholiad Cyffredinol**, ac oedolion hŷn 50+ oed yn llai tebygol. Roedd pobl ifanc 18-24 oed hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio pobl eraill, peiriannau chwilio, a phodlediadau fel ffynonellau newyddion yr Etholiad Cyffredinol ac yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddibynnu ar gyfryngau traddodiadol fel teledu, radio a phapurau newydd wedi'u hargraffu.

**Y BBC oedd y ffynhonnell teledu, radio a gwefan neu ap newyddion mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd yn gyffredinol**. Roedd cynulleidfaoedd o aelwydydd C2DE yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio ffynonellau'r BBC, er mai dyma'r ffynhonnell a ddefnyddiwyd fwyaf o hyd ymysg y grŵp hwn ar gyfer pob un o'r grwpiau teledu, radio ac apiau neu wefannau newyddion ar-lein.

**Roedd defnyddwyr newyddion cyfryngau cymdeithasol yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau cyfryngau cymdeithasol ar gyfer newyddion a gwybodaeth am yr Etholiad Cyffredinol**, ond nid oedd y mwyafrif yn defnyddio un ffynhonnell cyfryngau cymdeithasol. Y rhai a oedd yn cael eu defnyddio amlaf oedd X (Twitter gynt) sef 43% o ddefnyddwyr newyddion cyfryngau cymdeithasol, ac yna Facebook (39%), Instagram (32%), YouTube (28%), TikTok (21%), Reddit (10%), a WhatsApp (10%).

**Roedd y math mwyaf cyffredin o wybodaeth a welwyd ar gyfryngau cymdeithasol yn dod o ffynonellau teledu neu wasg traddodiadol (57% yn yr wythnos flaenorol) ymysg y rheini a oedd wedi nodi mai cyfryngau cymdeithasol oedd eu prif ffynhonnell newyddion.** Roedd tua hanner (49%) wedi gweld barn pobl nad oeddent yn eu hadnabod yn bersonol. Roedd hyn yn fwy tebygol na gweld barn pobl roedden nhw'n eu hadnabod (37%).

**Roedd hysbysebion gan bleidiau gwleidyddol y DU yn fwy tebygol o gael eu gweld yn yr wythnos cyn yr etholiad nag ar unrhyw adeg arall yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol.** Yn y cyfnod cyn yr etholiad, roedd 36% o'r rheini sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel prif ffynhonnell newyddion

[2] Ni ddylid cymharu'r ffigurau hyn yn uniongyrchol â ffigurau'r Arolwg Cael Gafael ar Newyddion ar gyfer defnyddio platfformau oherwydd y gwahanol fethodoleg a chwestiynau sydd yma'n gofyn "Gan feddwl am YR WYTHNOS DIWETHAF, pa rai o'r ffynonellau canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi'u defnyddio ar gyfer newyddion a gwybodaeth am Etholiad Cyffredinol y DU?", ac mae'r Arolwg Cael Gafael ar Newyddion yn gofyn "Pa rai o'r platfformau canlynol ydych chi'n eu defnyddio ar gyfer newyddion y dyddiau hyn?".

yn honni eu bod wedi gweld hysbysebion pleidiau gwleidyddol y DU ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod yr wythnos diwethaf yn nhon 1 a 38% yn nhon 2, cyn cyrraedd uchafbwynt o 48% yn nhon 3, ac yna disgyn yn ôl i lawr ar ôl yr etholiad i 39% yn nhon 4.

# Agweddau at newyddion a materion cyfoes


## Diddordeb mewn newyddion a materion cyfoes

**Ar y cyfan, dywedodd ymatebwyr eu bod fwy neu lai â diddordeb mewn newyddion a materion cyfoes yn ystod cyfnod yr etholiad fel "yn gyffredinol".** Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr fod ganddynt ddiddordeb; 48% yn ystod cyfnod yr etholiad, a 50% yn gyffredinol.

**Roedd y cynnydd mwyaf mewn diddordeb yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol o'i gymharu â'r arfer ymysg y rhai 18-24 oed**; roedd gan 58% ddiddordeb yn ystod cyfnod yr etholiad cyffredinol o'i gymharu â 39% yn gyffredinol.

**Fodd bynnag, roedd cynnydd yng nghyfran y bobl a ddywedodd nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn newyddion na materion cyfoes yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol o'i gymharu ag yn gyffredinol**; 28% yn ystod yr etholiad cyffredinol o'i gymharu â 21% yn gyffredinol. Roedd hyn yn cael ei sbarduno gan oedolion hŷn 50+ oed, menywod, a'r rhai mewn aelwydydd C2DE, a oedd i gyd yn fwy tebygol nag arfer o fod heb ddiddordeb yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol. Roedd gostyngiad cyfatebol yn y rhai a oedd yn y canol rhwng bod â diddordeb a heb fod â diddordeb.

**Ffigur 1: Cyfran yr ymatebwyr nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn newyddion na materion cyfoes**




*Ffynhonnell: Arolwg Etholiad Cyffredinol y DU 2024 C8. Ar raddfa o 1-5 lle mae 1 yn "Ddim diddordeb o gwbl" a 5 yn "Ddiddordeb mawr", faint o ddiddordeb sydd gennych chi mewn newyddion a materion cyfoes... yn gyffredinol; ...yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol.*

**Ymysg yr ymatebwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt ddiddordeb mewn newyddion na materion cyfoes, y prif resymau a roddwyd oedd eu bod yn teimlo na fydd unrhyw beth yn newid (51%) a'u bod yn eu digalonni (44%).** Dywedodd cyfran lai eu bod yn rhy ddryslyd (15%), nad ydynt yn berthnasol i'w bywyd (14%), ac nad oedd ganddynt amser (9%).


**Roedd cyfran ychydig yn is o bobl yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth am newyddion a materion cyfoes nag yr oedd ganddynt ddiddordeb**; dywedodd 43% eu bod yn cael digon o wybodaeth yn ystod cyfnod yr etholiad, a 45% yn gyffredinol. Roedd dynion a'r rheini mewn aelwydydd ABC1 yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn cael gwybodaeth dda yn gyffredinol ac yn ystod yr etholiad.

**Dywedodd un o bob deg (11%) o'r ymatebwyr nad oeddent yn cael gwybod am yr etholiad o gwbl, o'i gymharu â 7% ar gyfer yn gyffredinol**. Roedd menywod a'r rheini mewn aelwydydd C2DE yn fwy tebygol o deimlo nad oeddent yn cael gwybodaeth o gwbl yn ystod y ddau gyfnod.

## Sut mae pobl yn ffurfio eu barn

**Roedd llai nag un o bob pump (17%) yn cytuno bod "gan bobl fel fi lais mewn cymdeithas".** Roedd tua hanner (49%) yr ymatebwyr yn teimlo "does gan bobl fel fi ddim llais mewn cymdeithas". Roedd y canfyddiad o *beidio* â chael llais yn cynyddu gydag oedran, ac roedd pobl o aelwydydd C2DE hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o deimlo fel hyn.

**Ffigur 2: Canfyddiad o fod â llais mewn cymdeithas, ar raddfa o 1-5**



*Ffynhonnell: Arolwg Etholiad Cyffredinol 2024 y DU C16. Ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1 yn golygu "Mae gan bobl fel fi lais mewn cymdeithas" ac mae 5 yn golygu "Does gan bobl fel fi ddim llais mewn cymdeithas", ble fyddech chi'n rhoi eich barn chi? Nid yw'r siart yn cynnwys y 5% a ddewisodd 'Ddim yn gwybod'.*

**Roedd bron i hanner (46%) yr ymatebwyr yn cytuno "ei bod hi'n bwysig ymgysylltu â llawer o wahanol ffynonellau newyddion"**, a dywedodd llai na chwarter (22%) "mae'n well cadw at un ffynhonnell newyddion rydych chi'n ymddiried ynddi". Roedd y rheini mewn aelwyd C2DE yn fwy tebygol o ffafrio cadw at un ffynhonnell, tra bod y rheini mewn aelwyd ABC1 yn rhoi mwy o werth ar ymgysylltu â nifer o ffynonellau.

**Roedd safbwyntiau'n amrywio ar werth clywed "barn y bobl o'm cwmpas" yn hytrach na darparwyr newyddion a ffynonellau swyddogol i helpu pobl i benderfynu.** Roedd oedolion hŷn 65+ oed yn fwy tebygol o droi at ddarparwyr newyddion a ffynonellau swyddogol, ac roedd oedolion ifanc 18-24 oed yn fwy tebygol o ddefnyddio barn y bobl o'u cwmpas; er bod y mwyafrif ar gyfer pob grŵp oedran wedi dewis opsiwn 'niwtral' y cwestiwn hwn.


**Dywedodd y rhan fwyaf (55%) o bobl mai "anaml" byddant yn newid eu meddwl ar bynciau sy'n ymwneud â'r Etholiad Cyffredinol** – yn fwy tebygol ymysg y rheini sy'n 65+ oed. Dywedodd lleiafrif (11%) eu bod "yn aml" yn newid eu meddwl – yn fwy tebygol ymysg pobl 18-24 oed.

## Canfyddiadau o ffynonellau newyddion

**Yn gyson ag ymchwil arall, roedd teledu a radio yn cael sgôr uwch yn gyson am ymddiriedaeth, cywirdeb a defnyddioldeb.** Fodd bynnag, roedd ffynonellau fel cyfryngau cymdeithasol a phobl yn

siarad a gafodd sgôr is am ymddiriedaeth a chywirdeb yn dal i gael sgôr gymharol uwch o ran defnyddioldeb i'r ymatebydd.

**Ffigur 3: Cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno â'r disgrifiad bod ffynonellau gwahanol yn rhai dibynadwy, cywir a defnyddiol**




*Ffynhonnell: Arolwg Etholiad Cyffredinol 2024 y DU C12/13. Yn gyffredinol, pa mor ddibynadwy neu annibynadwy/cywir neu anghywir ydych chi'n meddwl yw'r ffynonellau gwybodaeth canlynol? C14. A pha mor ddefnyddiol yw'r ffynonellau canlynol ar gyfer dod o hyd i wybodaeth am yr Etholiad Cyffredinol?*

## Canfyddiadau pleidleiswyr

Fe wnaethom ddefnyddio arolwg omnibws gwleidyddol YouGov ar gyfer yr ymchwil hwn, ac felly fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i edrych ar sut roedd agweddau ac ymddygiad yn amrywio – neu beidio – yn ôl safbwynt gwleidyddol, yn ystod y cyfnod hwn o weithgarwch gwleidyddol dwys. Gofynnwyd i'r ymatebwyr sut roeddent yn pleidleisio yn etholiad 2024, ac er bod cyfran yr ymatebion yn dilyn yn fras y gyfran o'r bleidlais yn yr Etholiad Cyffredinol, dywedodd ychydig dros chwarter yr ymatebwyr nad oeddent yn pleidleisio neu nad oeddent yn gwybod i bwy wnaethant bleidleisio, o'i gymharu â 40% o boblogaeth go iawn y DU na bleidleisiodd. Mae ein canfyddiadau yn yr adran hon ond yn ymwneud â thon 4 yr arolwg, a gynhaliwyd ar ôl pleidleisio.[3] Bydd unrhyw gymariaethau â data ar draws y DU yn cael eu gwneud yn erbyn ffigurau ton 4 yn hytrach na'r ffigurau treigl a ddefnyddir mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn.

**Yn ôl y rheini a ddywedodd eu bod wedi pleidleisio dros Lafur, y Democratiaid Rhyddfrydol neu'r Blaid Werdd, roedd ganddynt fwy o ddiddordeb mewn newyddion a materion cyfoes yn ystod cyfnod yr etholiad o'i gymharu ag "yn gyffredinol".** I'r gwrthwyneb, roedd y rhai a ddywedodd eu bod yn pleidleisio o blaid y Ceidwadwyr neu Reform UK yn fwy tebygol nag arfer o beidio â bod â diddordeb yn ystod cyfnod yr etholiad.

**Roedd pleidleiswyr Reform UK a'r Blaid Werdd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio barn y rheini o'u cwmpas na darparwyr newyddion a ffynonellau swyddogol i'w helpu i wneud penderfyniad.** Roedd y rheini a oedd yn pleidleisio dros Lafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn fwy tebygol o droi at ddarparwyr newyddion a ffynonellau swyddogol yn hytrach na barn y bobl o'u cwmpas, ond er bod pleidleiswyr Ceidwadol yn fwy tebygol o ffafrio glynu at un

[3] Cyflwynir y canfyddiadau ar gyfer y rheini a ddywedodd eu bod wedi pleidleisio dros Lafur, y Ceidwadwyr, y Democratiaid Rhyddfrydol, Reform UK a'r Blaid Werdd. Dyma oedd y pleidiau lle cafwyd digon o gyfweliadau gyda phleidleiswyr i fodloni'r gofynion adrodd sylfaenol yn sampl y DU.

ffynhonnell, roedd pleidleiswyr Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn rhoi mwy o werth ar ymgysylltu â nifer o ffynonellau.

**Roedd pleidleiswyr Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud bod ffynonellau newyddion mwy traddodiadol fel teledu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus[4], radio a phapurau newydd yn ddibynadwy, yn gywir ac yn ddefnyddiol.** Roedd pleidleiswyr Reform UK yn llai tebygol na'r cyfartaledd o roi sgôr uwch i'r ffynonellau hynny ar unrhyw un o'r tair priodoledd ac yn fwy tebygol o ddweud bod y cyfryngau cymdeithasol a'r hyn roeddent yn ei glywed gan bobl eraill yn ffynonellau dibynadwy a chywir o wybodaeth.

## Camwybodaeth a ffugiadau dwfn

**Roedd bron i hanner (46%) yr oedolion yn hyderus y bydden nhw'n gallu adnabod camwybodaeth yn y cyfryngau**. Mae hyn yn cynyddu i'r rhan fwyaf o ddynion ac oedolion 18-49 oed, ac roedd y rheini mewn aelwydydd ABC1 yn fwy tebygol o fod yn hyderus na'r rheini mewn aelwydydd C2DE. Roedd lleiafrif nad oeddent yn teimlo'n hyderus (17%). Roedd 37% arall yn y canol rhwng bod yn hyderus neu beidio â bod yn hyderus neu ddim yn siŵr.

**Roedd cyfran lai o lawer, dim ond 21%, yn hyderus eu bod yn gallu adnabod ffugiadau dwfn yn y cyfryngau**.[5] Yn yr un modd, roedd dynion ac oedolion 18-49 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn hyderus. Nid oedd tua phedwar o bob deg (41%) yn hyderus ac roedd hyn yn fwy tebygol ymysg menywod ac oedolion 50+ oed.

**Roedd mwyafrif (60%) yn dweud eu bod wedi dod ar draws gwybodaeth am yr Etholiad Cyffredinol o leiaf unwaith yn yr wythnos flaenorol roeddent yn teimlo y gallai fod wedi bod yn ffug neu'n gamarweiniol.** Roedd hyn yn cynnwys un o bob deg a ddywedodd eu bod yn gweld gwybodaeth o'r fath sawl gwaith y dydd. Roedd tri o bob deg (30%) yn ansicr a oeddent wedi dod ar draws camwybodaeth yn ystod yr wythnos diwethaf.

**Roedd dros chwarter (27%) yr oedolion yn dweud eu bod wedi dod ar draws ffugiad dwfn o leiaf unwaith yn ystod yr wythnos diwethaf.** Gan adlewyrchu'r hyder is o ran adnabod ffugiadau dwfn, dywedodd bron i hanner (46%) nad oeddent yn gwybod a oeddent wedi gweld un yn ystod yr wythnos flaenorol.

**Ymysg y rheini a ddywedodd eu bod wedi dod ar draws cynnwys a allai fod wedi bod yn ffugiad dwfn yn eu barn nhw, yr ymateb mwyaf cyffredin oedd ei anwybyddu (69%)**. Roedd lleiafrif wedi cymryd camau gan gynnwys rhwystro'r ffynhonnell (19%) neu ei riportio (12%). Roedd un o bob deg wedi cymryd camau i wirio a oedd o'n ffugiad dwfn ai peidio.


**Dywedodd mwyafrif (57%) yr ymatebwyr eu bod naill ai'n eithaf pryderus neu'n bryderus iawn am effaith ffugiadau dwfn yn ystod ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol.** Roedd oedolion hŷn 65+ oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fynegi pryder, ac roedd y rheini mewn aelwydydd ABC1 yn fwy tebygol o bryderu na'r rheini mewn aelwydydd C2DE.

---

[4] Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus: hynny yw, yw'r rheini sy'n darparu gwasanaethau Sianel 3, Sianel 4, Sianel 5, S4C a'r BBC.

[5] At ddibenion yr arolwg hwn, rydym yn ystyried bod ffugiadau dwfn yn ffynhonnell sain, yn ddelwedd, yn fideo neu'n destun sy'n cael ei greu drwy ddefnyddio offer AI. Rhoddwyd y disgrifiad hwn i'r ymatebwyr.

**Ffigur 4: Hyder i allu adnabod ffugiadau dwfn a phryder am effaith ffugiadau dwfn yn ystod ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol**




*Ffynhonnell: Arolwg Etholiad Cyffredinol 2024 y DU C21. Pa mor hyderus ydych chi, os o gwbl, yn eich gallu i adnabod ffynhonnell ffugiad dwfn yn y cyfryngau? C24. Ac yn gyffredinol, pa mor bryderus ydych chi, os o gwbl, am effaith ffugiadau dwfn yn y cyfryngau yn ystod ymgyrch yr Etholiad Cyffredinol?*

## Agweddau a phrofiadau yn ystod Etholiad Cyffredinol y DU 2024, yn ôl gwlad



### Lloegr

**49%**

wedi defnyddio'r teledu i ddilyn newyddion am Etholiad Cyffredinol 2024 y DU, y ffynhonnell fwyaf cyffredin.

**48% vs 49%**

wedi dweud bod ganddyn nhw ddiddordeb yn y newyddion yn ystod yr Etholiad Cyffredinol wrth gymharu ag 'yn gyffredinol'.

**28% vs 21%**

wedi dweud *nad* oedd ganddyn nhw ddiddordeb yn y newyddion yn ystod yr Etholiad Cyffredinol wrth gymharu ag 'yn gyffredinol'.

**17%**

yn credu "mae gan bobl fel fi lais mewn cymdeithas".

**45% vs 22%**

yn credu "ei bod hi'n bwysig ymgysylltu â llawer o wahanol ffynonellau newyddion" vs "mae'n well cadw at un ffynhonnell newyddion rydych chi'n ymddiried ynddi".

**21%; a 27%**

wedi dweud eu bod yn hyderus yn eu gallu i adnabod ffugiad dwfn; ac yn dweud eu bod wedi dod ar draws ffugiad dwfn yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol.



### Yr Alban

**50%**

wedi defnyddio'r teledu i ddilyn newyddion am Etholiad Cyffredinol 2024 y DU, y ffynhonnell fwyaf cyffredin.

**49% vs 54%**

wedi dweud bod ganddyn nhw ddiddordeb yn y newyddion yn ystod yr Etholiad Cyffredinol wrth gymharu ag 'yn gyffredinol'.

**27% vs 18%**

wedi dweud *nad* oedd ganddyn nhw ddiddordeb yn y newyddion yn ystod yr Etholiad Cyffredinol wrth gymharu ag 'yn gyffredinol'.

**19%**

yn credu "mae gan bobl fel fi lais mewn cymdeithas".

**51% vs 19%**

yn credu "ei bod hi'n bwysig ymgysylltu â llawer o wahanol ffynonellau newyddion" vs "mae'n well cadw at un ffynhonnell newyddion rydych chi'n ymddiried ynddi".

**24%; a 27%**

wedi dweud eu bod yn hyderus yn eu gallu i adnabod ffugiad dwfn; ac yn dweud eu bod wedi dod ar draws ffugiad dwfn yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol.



## Cymru

**50%**

wedi defnyddio'r teledu i ddilyn newyddion am Etholiad Cyffredinol 2024 y DU, y ffynhonnell fwyaf cyffredin.

**48% vs 49%**

wedi dweud bod ganddyn nhw ddiddordeb yn y newyddion yn ystod yr Etholiad Cyffredinol wrth gymharu ag 'yn gyffredinol'.

**32% vs 22%**

wedi dweud *nad* oedd ganddyn nhw ddiddordeb yn y newyddion yn ystod yr Etholiad Cyffredinol wrth gymharu ag 'yn gyffredinol'.

**14%**

yn credu "mae gan bobl fel fi lais mewn cymdeithas".

**45% vs 19%**

yn credu "ei bod hi'n bwysig ymgysylltu â llawer o wahanol ffynonellau newyddion" vs "mae'n well cadw at un ffynhonnell newyddion rydych chi'n ymddiried ynddi".

**22%; a 25%**

wedi dweud eu bod yn hyderus yn eu gallu i adnabod ffugiad dwfn; ac yn dweud eu bod wedi dod ar draws ffugiad dwfn yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol.



## Gogledd Iwerddon

**53%**

wedi defnyddio'r teledu i ddilyn newyddion am Etholiad Cyffredinol 2024 y DU, y ffynhonnell fwyaf cyffredin.

**51% vs 57%**

wedi dweud bod ganddyn nhw ddiddordeb yn y newyddion yn ystod yr Etholiad Cyffredinol wrth gymharu ag 'yn gyffredinol'.

**26% vs 19%**

wedi dweud *nad* oedd ganddyn nhw ddiddordeb yn y newyddion yn ystod yr Etholiad Cyffredinol wrth gymharu ag 'yn gyffredinol'.

**20%**

yn credu "mae gan bobl fel fi lais mewn cymdeithas".

**49% vs 22%**

yn credu "ei bod hi'n bwysig ymgysylltu â llawer o wahanol ffynonellau newyddion" vs "mae'n well cadw at un ffynhonnell newyddion rydych chi'n ymddiried ynddi".

**17%; a 25%**

wedi dweud eu bod yn hyderus yn eu gallu i adnabod ffugiad dwfn; ac yn dweud eu bod wedi dod ar draws ffugiad dwfn yn ystod cyfnod yr Etholiad Cyffredinol.